



2015 - 2016

Llawlyfr Rhieni – Parents' Handbook



Ysgol yr Hendre
Ffordd Cae Phillips
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 2AT

Rhif Ffon:
01286 674332

Pennaeth:
Mr Arwel Wyn Jones

Annwyl Riant,

CROESO I



Carwn estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn i'r ysgol gartrefol hon sy'n rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd, yn Ysgol Werdd ac yn Eco Ysgol.

Mae'r ysgol hon, ei staff a'i Llywodraethwyr, yn credu'n gryf mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Trwy gydweithredu hyderwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu i'r eithaf yn addysgol a chymdeithasol.

Bydd y llawlyfr yma o gymorth i chi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o faterion sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth yr ysgol ac i helpu'ch plentyn i ymgartrefu'n fuan.

Er hynny, nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yn y fan hyn ac fe nodir yn ogystal y gall rhai manylion newid rhwng amser cyhoeddi'r llawlyfr a dechrau'r flwyddyn ysgol. Bydd safwe'r ysgol (<http://www.hendre.gwynedd.sch.uk/>) yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a bydd yn ffynhonnell wybodaeth gyfredol i chi. Os ydych am drafod cynnwys y llawlyfr neu'r safle we, fe'ch gwahoddir i wneud hynny trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Yn gywir iawn

A.W. Jones

ARWEL WYN JONES
Pennaeth
(Medi 2014)

YMWELD Â'R YSGOL

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg ond byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth ymlaen llaw os yn bosibl. Rhif ffôn yr ysgol yw:- **CAERNARFON 674332**

Dear Parents,

WELCOME TO



May I take this opportunity to welcome you and your child to our homely school.

The Staff and Governors would like to emphasize from the outset that education is a partnership between the home and the school. With your co-operation we trust your child's time spent here will be a happy one and that we will see a continuous educational and social development.

This handbook is presented to give parents of pupils, and prospective pupils an indication of the nature of the school and the education offered. It contains information vital to the day to day management of the school and will assist your child to settle down quickly.

However, the handbook does not claim to be exhaustive and whilst the particulars were correct at the time of publication, it should not be assumed there will be no change before the beginning of the school year. In this respect, the school's website (<http://www.hendre.qwynedd.sch.uk/>) is updated on a regular basis and is a good port of call for the latest information about Ysgol yr Hendre. You may want to make arrangements to visit the school to discuss the contents of this handbook or any other matter and I would be more than happy to offer my assistance.

A.W.Jones

ARWEL WYN JONES
Headteacher
(September 2014)

VISITING THE SCHOOL

You are welcome to visit the school at any time, but it would be advisable if you could contact us beforehand if at all possible. The school's telephone number is:-
CAERNARFON 674332

GWYBODAETH I RIENI - INFORMATION FOR PARENTS

Enw'r Ysgol/Name of School: YSGOL YR HENDRE

Disgrifiad o'r Ysgol: Ysgol Gynradd Sirol yw'r ysgol hon yn cynnwys uned feithrin, babanod a iau. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

Description of School: *This school is a County Primary School consisting of nursery, infants and junior units. It is a day, bilingual, co-educational school.*

Rhif Ffon/Tel No: 01286 674332

Prifathro/Headteacher: Mr Arwel Wyn Jones
arwelwynjones@gwynedd.gov.uk

Dirprwy Bennaeth: Mr Aled Wyn Williams
Deputy Headteacher aledwynwilliams2@gwynedd.gov.uk

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Y Cyng. Roy Owen
Chairman of the Governors:

PATRW M DIWRNOD YR YSGOL/THE SCHOOL DAY

Sesiwn y Bore: 9.00 - 12.00
Morning Session:

Sesiwn y Prynawn: 1.00 - 3.00 (Babanod/Infants)
Afternoon Session: 1.00 - 3.30 (Iau/Juniors)

POLISI DERBYN YR YSGOL

Nodir nifer arferol yr oriau o amser gwersi yr wythnos (heb gynnwys cofrestru/gwasanaeth bore ac egwyliau) a roddir fel rheol i bob disgybl amser llawn.

Feithrinfa (Rhan Amser)	10.00 awr/hour
Babanod/ <i>Infants</i>	22.30 awr/hour
Iau/ <i>Juniors</i>	25.00 awr/hour

Byddwn yn derbyn plant yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 3 oed - Feithrinfa ac yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 4 oed - Dosbarth Derbyn.

THE SCHOOLS' ADMISSION POLICY

Note the hours of lesson time per week, (excluding registration/morning services and break time) received by each full-time pupil in the school.

<i>Nursery (Part Time)</i>	<i>10.00 hours</i>
<i>Infants</i>	<i>22.30 hours</i>
<i>Juniors</i>	<i>25.00 hours</i>

Children start school on a part time basis in the September following their 3rd birthday - Nursery and become full time in the September following their 4th birthday - Reception Class.

STAFF YR YSGOL / SCHOOL STAFF

PENNAETH/HEADTEACHER:	Mr Arwel Jones
DIRPRWY BENNAETH: DEPUTY HEADTEACHER	Mr Aled Wyn Williams
PENNAETH Y BABANOD: HEAD OF INFANTS	Mrs Anwen Jones
PENNAETH YR ADRAN IAU: HEAD OF JUNIORS	Mrs Glenda Jamieson

**PENNAETH CWRICWLAIDD:
HEAD OF CURRICULUM**

Mrs Eleri Pollard

YSGRIFENYDDES/SECRETARY:

Mrs Lindy Steele

**SWYDDOG PRESENOLDEB:
ATTENDANCE OFFICER**

Mrs Yvonne Gosset

STAFF DYSGU ac ATEGOL: TEACHING & AUXILIARY STAFF

Y Feithrinfa/Nursery: Gweinyddesau Meithrin/Nursery Assistants:	Mrs A Jones, Miss H Lewis, Miss C Parry
Dosbarth Derbyn BI 0/Reception: Gweinyddesau Derbyn/Reception Assistants:	Miss S Bryn, Miss M Dafydd, Mrs H Jones, Mrs N Williams, Miss L Owen, Ms A Huws
BI 1/Year 1: Gweinyddesau/Assistants:	Miss L Jones, Mrs J Williams, Miss S Parry, Ms E Williams, Miss S Campbell
BI 2/Year 2: Gweinyddesau/Assistants:	Mrs L George, Mrs H Williams Mrs L Roberts, Mrs M Roberts, Mrs I Smart
BI 3/Year 3:	Mrs E Pollard, Miss C M Jones Mrs N Evans, Ms S Owen,
BI 4/Year 4:	Mr G Jamieson, Mrs C Jones, Mrs S Jones, Miss T Taylor
BI 5/Year 5	Mrs B Chambers, Miss M Griffiths Miss N Jennings
BI 6/Year 6:	Mr D Pritchard, Mr M Llywelyn Mrs D Mitchell, Miss E Roberts
Athrawon CPA/PPA Teachers	Mrs A John, Mr LI Holland
Cyd-lynyddion AAY / SEN Co-ordinators	Mr A W Williams, Mrs A Jones (dan 5 oed/under 5 yrs)
Gofalwr/Caretaker:	Mr A Barnes
Cogyddes/Cook:	Mrs Wendy Evans
Clerc Arian Cinio/Dinner Money Clerk:	Mrs Janice Davies

POLISI IAITH

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

AMCANION PENODOL

Addysg Feithrin

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Babanod

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid iau).

Bydd y Prifathro/Prifathrawes, mewn ymgynghoriad â'r staff, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg a amlinellir uchod.

LANGUAGE POLICY

GENERAL AIMS

Gwynedd Education Authority operates a bilingual policy in all its schools and is also developing a bilingual policy for the Further Education establishments within the county.

The aim is to develop the ability of pupils and students within the county to be confidently bilingual in order that they can be full members of the bilingual society of which they are a part.

All educational establishments within the county should reflect and reinforce the language policy in their administration, their social life and pastoral arrangements as well as their academic provision.

SPECIFIC AIMS

Nursery Education

To ensure, through sensitively structured provision and organisation, that each child receives a firm foundation in Welsh in order to enable him/her in due course to attain the aim of full bilingualism.

Infants

To build on the Welsh language foundation laid through nursery education, to consolidate and develop the mother tongue of children who are Welsh learners and extend the children from a Welsh speaking home's competence in English.

Junior

To consolidate and develop each child's Welsh and English capabilities in all aspects, both active and receptive, so as to ensure that he/she can speak, read and write fluently and confidently in both languages on transferring to the secondary school. (Special provision will be made for junior late-comers).

The Headteacher, in consultation with his/her staff, will prepare and regularly review a document which states how the school intends to operate the Education Authority's language policy as outlined above.

Y CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod. Dyfynnir isod ragair ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr Awdurdod Addysg :

Rhagair

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol.

- (a) Galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
- (b) Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- (c) Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Amcanion cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.
3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

THE CURRICULUM

In accordance with the requirements of the Education Act 1986, the Education Authority has formed, and intends to review regularly, a written statement of policy regarding the secular curriculum. The requirements of the National Curriculum will be interpreted in the light of the Authority's present policies and philosophy. Quoted below are the introduction and general aims of the statement as seen in the Education Authority's document :

Introduction

The aim of an education system is to create situations and provide resources that will enable each child to develop a full personality, to develop and exercise all his or her abilities, to provide for the pupil in accordance with his/her age, ability and aptitude, so that he/she is able to become a responsible member of a bilingual society, able to contribute to that society and benefit from it, and to live in peace and fraternity with fellow men.

There are three inter-related aspects to the general statements, i.e. the need:

- (a) To enable each child to develop his/her full potential.*
- (b) To ensure that each child is introduced to his/her Welsh heritage.*
- (c) To give an opportunity for each child to develop as a full member of a rapidly changing society.*

General objectives

- 1. To develop oral, literary and numerical skills in the context of inspiring the child's enthusiasm, imagination and interest.*
- 2. To increase the child's knowledge and to develop his powers of reasoning in order to assist him to adapt to a rapidly changing world which has more sophisticated processes and techniques, in particular in relation to information technology.*
- 3. To create in each child the desire to seek further knowledge and experience during his life and to develop his powers of mind, his moral and spiritual awareness.*
- 4. To assist the child to live and work with others and to develop attitudes which will enable him/her to become a responsible member of the community.*
- 5. To develop sensitivity, aesthetic appreciation and leisure skills in the child.*
- 6. To provide particular attention for each child with special needs, e.g. for the exceptionally able and for those with various disadvantages.*
- 7. To present ideas and concepts by employing lively and dynamic methods that will motivate pupils' response.*

It is necessary for every school to prepare and develop a comprehensive plan based on the Education Authority's document. This plan will include details of the education course and the way it is operated in order to ensure that the education given to the pupils meets fully with the aims of the document.

Y CWRICWLWM

IAITH - SIARAD

Ein Nôd

Cael y plant fynegi eu hunain yn llafar, yn eglur a hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac mor ddwyieithog â phosib.

DARLLEN

Anogir y plant fwynhau a chael phleser gyda phob math o lyfrau yn y ddwy iaith.

Ein Nôd

Meithrin darllenwyr, rhugl meistrolgar a hyderus. Caiff y plant gyfle i fynd â llyfrau adref yn wythnosol yn eu bag coch. Hoffem petai'r rhieni yn gwrandao arnynt yn darllen. Byddai hyn yn ehangu eu profiad darllen.

THE CURRICULUM

LANGUAGE - TALKING

Our Aim

To ensure that each pupil is able to express him/herself clearly and effectively through the medium of both languages, in a variety of situations.

READING

Children are encouraged to enjoy and appreciate all books in both languages.

Our Aim

To develop fluent, competent and confident readers.

Children are allowed to take books home in their red bags. We would appreciate if parents would listen to their children - this enhances their reading experiences.

ADDYSG GREFYDDOL

Anogir datblygiad iach yn foesol ac ysbrydol gan barchu cyd-ddyn a Christ. Dysgir am y Beibl i'r plant a chynhelir gwasanaethau ar y cyd yn rheolaidd.

YSGRIFENNU

Ein Nôd

Annog plant fynegi eu hunain yn ystwyth a medrus mewn nifer o wahanol gyfryngau, e.e. dyddiadur, stori, llythyr, barddoniaeth, crynodeb a.y.y.b. yn y ddwy iaith.

LLAWYSGRIFEN

Rydym yn awyddus i'r plant ddatblygu llawysgrifen daclus a dealladwy.

RELIGIOUS EDUCATION

The education that is provided is within a Christian atmosphere, where moral and spiritual values are of the utmost importance. Assembly is held on a regular basis and the children participate frequently, presenting Biblical stories.

WRITING

Our Aim

Encourage the children to express themselves in a variety of forms e.g. diary, story, letter, poetry and précis etc. in both languages.

HANDWRITING

Encourage children to develop neat and legible handwriting.

MATHEMATEG

Ein nod yw hybu gwaith rhif a'r agweddau eraill o Fathemateg. Mae'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth fathemategol i ddatrys problemau yn eu bywyd beunyddiol yn bwysig.

GWYDDONIAETH

Mae plant yn chwilfrydig ac, felly, defnyddiwn y cywreinrwydd hwnnw i ddatblygu eu gallu i arsylwi, damcaniaethu, arbrofi a dod i gasgliadau am y byd o'n cwmpas.

CERDDORIAETH

Mae cerdd yn rhan bwysig o gwricwlwm ein hysgol. Yn ogystal â dysgu amrywiaeth o ganeuon mae'r plant yn cael cyfle i berfformio ar ddewis eang o offerynnau taro, cyfansoddi darnau creadigol a gwerthfawrogi cerddoriaeth o bob math.

CELF

Gwelir bod celf o bob math yn hanfodol yn natblygiad y plentyn cyflawn. Rhydd gyfle iddo/iddi fynegi ei hun a dysgu am ei hun a'i amgylchfyd. Rhoddir cyfle i'r plentyn arbrofi gydag amrywiol gyfryngau a thechnegau celf, e.e. paentio, tynnu llun, collage, cerameg a dysgu am enwogion eraill.

MATHEMATICS

We aim to encourage numeracy and other areas of Mathematics. Using mathematical know-how to solve real problems is important.

SCIENCE

Children are naturally curious. It is our aim to develop that curiosity so that the children will learn to observe and hypothesise, investigate and test.

MUSIC

Music plays an important role in the school's curriculum. As well as learning a variety of songs, children play many different percussion instruments, compose creative pieces and appreciate music of different styles.

ART

Art is seen to be essential in the whole development of the child. It gives him/her the opportunity to express himself/herself and to learn about himself/herself and his/her environment. Ample opportunities are provided to explore a variety of mediums and techniques, i.e. painting, drawing, collage, ceramics and learning about other famous artists.

TECHNOLEG/TECHNOLEG GWYBODAETH

Gwelir technoleg yn rhan bwysig o'r cwricwlwm, wrth iddynt ddatblygu yn eu gallu i ddatrys problemau a datblygu syniadau'n hyderus.

Defnyddir y cyfrifiadur ar draws y cwricwlwm, gan obeithio y dânt i'w ddefnyddio yn hyderus. Nid pwnc yw Technoleg Gwybodaeth mwyach ond cyfrwng dysgu Traws-gwricwlaidd.

DYNIAETHAU

Gan fod ein hardal leol yn un drefol ac yn gyfoethog o ran hanes a daearyddiaeth, 'rydym am ddarparu'r cyfle i'r plant ddod i adnabod eu bro. Yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol yr ydym yn lleadaenu eu gornelion yn fyd eang.

ADDYSG GORFFOROL

Gwelir Addysg Gorfforol fel dull o ddysgu drwy symud; boed yn ddawns, gymnasteg, nofio, mabolgampau neu addysg Awyr Agored. Anelwn at gynnig amrywiaeth o brofiadau i ddatblygu ystod sgiliau'r plentyn, gan sicrhau bod y profiad yn un cadarnhaol ac yn cael ei fwynhau. Gobeithiwn fod yr amrywiol brofiadau hyn yn gosod seiliau i fywyd iach a fydd yn parhau i'r dyfodol.

TECHNOLOGY/INFORMATION TECHNOLOGY

Technology is seen as an important part of the curriculum as they develop in their ability to make decisions and solve problems.

The computer is used across the curriculum. It is hoped that they develop skills to use it confidently. Information technology is no longer a subject but a cross curricular teaching tool.

HUMANITIES

Since we live in a rich environment, historically and geographically, our aim is to provide ample experiences so that the child familiarises with the locality. In accordance with the National Curriculum, we provide ample opportunities to broaden their knowledge of the world.

PHYSICAL EDUCATION

Physical Education allows learning through movement, be it dance, gymnastics, swimming, athletics or Outdoor Activities. We aim to provide opportunities to develop the child's skills and ensure that the experience is enjoyable and positive. We hope that the various activities will provide the basis for a healthy active life.

ADDYSG FEITHRIN

Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser yn y mis Medi wedi iddynt fod yn dair oed. Mae'r plant yng ngofal athrawes a gweinyddesau meithrin o 9 o'r gloch hyd at 11.00 o'r gloch ac o 1 o'r gloch hyd at 3 o'r gloch y pnawn (dau grŵp).

Derbynnir y plant yn llawn amser i'r dosbarth derbyn yn y Medi wedi iddynt fod yn bedair oed, lle maent yng ngofal athrawes a gweinyddesau meithrin.

Ein hamcan yw creu plant hapus a hyderus sydd yn dangos diddordeb byrlymus mewn eraill â'r byd o'n cwmpas.

Credwn bod ansawdd a natur y ddarpariaeth yn holl bwysig yn y blynyddoedd cynnar. Amcanwn at baratoi profiadau helaeth sydd yn hybu a chyfoethogi datblygiad y plentyn cyfan mewn awyrgylch diogel, hapus a chlyd.



NURSERY EDUCATION

Children are admitted to the school part-time in September following their third birthday. The children are placed in the care of both a teacher and nursery attendants from 9.00 until 11.00 a.m. and from 1 p.m. until 3 p.m. (two groups).

Children are admitted full-time to the reception class in the September following their fourth birthday, where they are placed in the care of a teacher and nursery attendants.

Our objective is to create happy and confident children who show an enthusiastic interest both in other people and in the world around us.

We believe that both the quality and the nature of the provisions are crucial during the early years. Our aim is to provide broad experiences that both promote and enrich the development of the whole child within a secure, happy and homely environment

CYNLLUNIO GWAITH YN Y DOSBARTH

Gweithredir drwy thema ym mhob dosbarth. Cylch dwy flynedd o themâu sydd yn cael ei weithredu. Mae agweddau gwyddonol, ieithyddol, cerddorol, mynegiannol a chrefyddol yn digwydd bob tymor er mwyn cwmpasu'r cwricwlwm.

Bydd iaith yn digwydd o hyd gan fod iaith yn gyfrwng.

Dilyna pob plentyn lyfrau gosod unigol mewn mathemateg ac, felly, yn gallu gweithio ar ei lefel ei hun. Mae'n bosibl cyflwyno agweddau o waith mathemateg drwy thema os yw'n cynnig cyfle. Defnyddir technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

Astudir hanes, daearyddiaeth, celf a thechnoleg bob tymor.

Gosodir tasgau gwaith i'r plant eu cwblhau ac mae'r athro/athrawes yn sensitif bod yn rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer rhai plant, e.e.

- darllen y cyfarwyddiadau iddynt
- helpu cadw dilyniant
- annog cwblhau
- holi cwestiynau pellach i ymestyn/sicrhau dealltwriaeth (sesiwn adborth)
- darparu gwaith ar lefel uwch/is
- gosod gwaith
- annog taclusrwydd
- bod yn gynhaliaeth ddibynadwy
- magu hyder

PLANNING WORK IN THE CLASSROOM

Work will be undertaken in every class through themes. A two-year theme cycle is implemented. Scientific, linguistic, musical, expressive and religious occur every term in order to encompass the curriculum.

Language, being a medium, is in constant use.

Every child follows individual set books in mathematics and can, therefore, work at his/her own level. It is possible to present aspects of mathematics work through a theme if it offers the opportunity. Information technology is used across the curriculum.

History, geography, art and technology will be studied every term.

Children will be given work tasks to accomplish and the teacher will be sensitive to the fact that a certain provision has to be made for some children, e.g.

- *reading them the instructions*
- *helping to sustain sequence*
- *encouraging them to complete the work asking further questions to challenge/ensure understanding (feedback session)*
- *providing work which of a higher/lower level*
- *setting the work out*
- *encouraging neatness*
- *being a dependable support*
- *fostering confidence*

POLISI CODI TÂL

Mae corff llywodraethol yr ysgol wedi mabwysiadu'r Polisi fel a ganlyn:

TEITHIAU YSGOL/GWIBDAITH/YMWELIAD

Mae gan bob plentyn yr hawl I addysg rad ac am ddim ac felly mae yn Ysgol Yr Hendre. Serch hynny, ni fuasai modd cynnig rhai gweithgareddau heb eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad chwi. Bydd yr ysgol yn gofyn yn garedig am gyfraniad tuag at fynd ar ambell daith addysgol, ar wibdaith neu ymweliad.

NOFIO

Ar hyn o bryd bydd yr ysgol yn gofyn am gyfraniad at gost cludiant i'r gwersi nofio.

DIFRODI YN FWRIADOL OFFER NEU EIDDO

Codir tâl ar y rhiant am gamweithred bwriadol gan y plentyn at offer neu eiddo tu mewn neu du allan i'r ysgol, e.e. llyfrau ac offer addysgiadol, ffenestri, drysau neu "fittings" eraill.

POLICY OF CHARGING FOR ACTIVITIES

The school's governing body has adopted the following policy:

CHARGING FOR ACTIVITIES' POLICY

SCHOOL TRIPS/EXCURSIONS/VISITS

Every child has the right to a free education and this is the case at Ysgol Yr Hendre. However, it would not be possible to offer some activities without your support and co-operation. The school will kindly request a contribution towards some educational trips, excursions or visits.

SWIMMING

The school currently request a contribution towards the bus fare for swimming.

DELIBERATE DAMAGE TO EQUIPMENT OR PROPERTY

Parents will be charged for any deliberate damage by their child to equipment or property either inside or outside of the school, e.g. to educational books and equipment, windows, doors or other fittings.

DISGYBLAETH

Os ydym am gynnal awyrgylch ddysgu briodol yn yr ysgol mae'n hanfodol cael disgyblaeth dda. Mae'r ysgol yn dibynnu ar gefnogaeth rhieni yn y mater hwn.

Mae gennym reolau yn yr ysgol ac mae'n rhaid ei dilyn. Mae'r rheolau yma yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael cam ymddwyn nac amharu ar gyfle y mwyafrif o blant eraill i'w hawl i gael addysg.

Rheolau dosbarth

1. Dim rhedeg na gweiddi yn yr ysgol.
2. Peidio siarad wrth weithio.
3. Gwrando'n astud bob amser.
4. Parchu plant eraill ac athrawon.
5. Gweithio'n dawel oni bai i'r dasg ofyn am drafodaeth rhwng disgyblion.
6. Cadw'r dosbarth yn daclus.

Bydd y plant sydd yn dilyn y rheolau yma yn cael eu canmol gan yr athro/athrawes.

Bydd yr un rheolau'n weithredol allan ar yr iard ac yn y Neuadd Ginio.

Bydd plant a fydd yn camymddwyn yn cael:-

- | | |
|-------|--|
| Cam 1 | Rhybudd ar lafar. |
| Cam 2 | Colli amser chwarae. |
| Cam 3 | Cael eu gyrru at Bennaeth y Babanod , Pennaeth Yr Adran Iau neu Ddirprwy Bennaeth. |
| Cam 4 | Cael eu gyrru at y Pennaeth. |
| Cam 5 | Cael llythyr ymddygiad i fynd adref a thaflen ymddygiad dosbarth am yr wythnos. |
| Cam 6 | Rhieni'n cael eu galw i mewn. |

Ein gobaith yw na fydd angen mynd ymhellach na'r 2il gam.

Gofynnwn i chi arwyddo isod i ddangos eich bod wedi deall ac yn cefnogi polisi disgyblaeth yr ysgol.

Yn gywir

A.W.Jones

ARWEL WYN JONES
Pennaeth

DISCIPLINE

If we are to sustain a happy and proper learning environment in school it is very important to have proper discipline. The school depends on parents support in this matter.

We have school rules that must be followed. These rules ensure that no child is allowed to misbehave or disrupt the smooth running of the school and in doing so deny the vast majority of children, who want to work, their right to education.

Classroom Rules

1. No running or shouting inside school.
2. Don't interrupt when someone is talking.
3. Listen carefully at all times.
4. Respect other children and teachers.
5. Work quietly unless the task requires discussion between pupils.

The children who follow these rules will be praised by their teacher.

The same rules apply at playtimes and in the dining hall.

Children who do misbehave will be treated as follows:-

- Step 1 Receive a verbal warning.
- Step 2 Will miss playtimes.
- Step 3 Will be sent to the Head of Infants, Head of Juniors or Deputy Head.
- Step 4 Will be sent to the Headteacher.
- Step 5 Will receive a behaviour letter to show their parents and will be put on a week's behaviour report.
- Step 6 Parents will be called in.

Yours sincerely

A.W.Jones

ARWEL WYN JONES
Headteacher

POLISI DISGYBLAETH

DISCIPLINE POLICY

Rwyf yn deall ac yn cefnogi taflen ddisgyblaeth Ysgol yr Hendre.

I understand and support the disciplinary form issued by Ysgol yr Hendre.


Arwyddwyd/*Signed* Rhiant/*Parent*

Enw'r Plentyn/*Name of Child*

Dosbarth/*Class*:

Dylech ddychwelyd y ffurflen hon i'r ysgol cyn gynted ag sydd bosibl.

Please return this form to the school as soon as possible



GWAITH CARTREF

Bydd gwaith cartref yn cael ei roi yn rheolaidd i blant o flynyddoedd 1 - 6.

Bydd y plant yn gweithio ar themau neu brosiectau yn eu dosbarthiadau ac yn cael tasgau ac ymarferion i wneud gartref i gefnogi'r gwaith.

Bydd pob gwaith cartref a osodir yn cael ei drafod yn y dosbarth.
Disgwylir y bydd gwaith cartref yn gymorth i godi safonau.

Nid creu poendod i unrhyw blentyn yw ein bwriad o gwbl ond yn hytrach cynnig cymorth iddo/iddi i wella'i sgiliau sylfaenol.

Bydd yr ymarfer o wneud gwaith cartref yn paratoi'r plentyn ar gyfer ymarferion tebyg yn yr ysgol uwchradd.

Darperir llyfr/taflen ar gyfer y gwaith a chedwir cofnod o waith pob plentyn.
Gofynnwn i bob rhiant arwyddo contract yn mynegi eu bod yn cefnogi'r polisi gwaith cartref yr ysgol (gweler isod).

Mae cydweithrediad rhieni yn allweddol os yw'r cynllun am lwyddo.
Gall gwaith cartref gynnwys unrhyw un o'r canlynol:-

Ymarfer llawysgrifen

Dysgu sillafu

Darllen ar y cyd

Mathemateg (tablau etc)

Iaith (Cymraeg a Saesneg)

Celf

Chwilio am wybodaeth

Holiaduron etc

POLISI GWAITH CARTREF

A fuasech mor garedig ag arwyddo isod i ddangos eich bod yn cefnogi polisi gwaith cartref yr ysgol. Diolch am eich cefnogaeth a'ch cyd-weithrediad.

Rwyf yn cefnogi Polisi Gwaith Cartref yr ysgol.

Enw'r Plentyn/*Child's Name*

Arwyddwyd/*Signed*.....

Dyddiad.....

HOMEWORK

*We shall be giving regular homework to the children from Years 1-6.
Children will be working on particular themes or projects and will be given tasks and exercises as homework to support the work.*

*Each homework set, will be discussed in class.
We hope that homework will help raise standards.*

*It is not our intention to create stress for any child but offer him or her help to improve basic skills.
Doing homework prepares the child for similar work at the secondary school.*

*A book/leaflet will be prepared to record each child's homework.
We ask each parent to sign a contract which states that they support the school's homework policy (see below).*

*Your co-operation is essential if the scheme is to succeed.
Homework could include one of the following:-*

Handwriting exercises

Spelling

Reading together

Maths

Language (Welsh and English)

Craft Work

Finding Out

Questionnaires etc

POLISI GWAITH CARTREF / HOMEWORK POLICY

Would you please sign below to show that you support our homework policy. Thank you for your support and co-operation.

I support the school's Homework Policy.

Child's Name

Signed.....

Date.....

CYTUNDEB CARTREF / YSGOL

Er mwyn i'ch plentyn ffynnu a gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir iddo/iddo mae'n rhaid creu yr amodau iawn ar gyfer y dysgu. Bydd rhain yn cynnwys amgylcheddau sy'n cynnig:

- Cariad, dealltwriaeth a chefnogaeth.
- Sicrwydd a diogelwch.
- Annogaeth a chanmoliaeth.
- Arweiniad a disgyblaeth.
- Brwdfrydedd.
- Cyfleoedd addysg a dysgu a phrofiadau newydd.

Mae'r Cytundeb hwn yn diffinio gwahanol feysydd cyfrifoldeb sydd angen eu cyflawni gan y cartref a'r ysgol.

Rhieni

Byddaf/Byddwn yn gwneud fy/ein gorau i:

- roi pob cymorth a chefnogaeth i fy/ein plentyn gyda'i addysg;
- gefnogi fy/ein plentyn gydag unrhyw weithgaredd a osodir gan yr ysgol gan gynnwys gwaith cartref;
- fynychu nosweithiau rhieni a chyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer trafod datblygiad fy/ein plentyn;
- sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i'r ysgol yn brydlon a rheolaidd;
- sicrhau bod fy/ein plentyn yn cydymffurfio a pholisi ymddygiad yr ysgol;
- annog fy/ein plentyn i feithrin parch tuag at ei hun ac eraill;
- sicrhau y byddaf/byddwn yn cysylltu â'r ysgol ar unwaith mewn unrhyw achos o absenoldeb.

Plentyn

I'm cynorthwyo i wneud yn dda yn yr ysgol, gwnaf fy ngorau i:-

- weithio yn galed;
- wneud fy ngwaith cartref;
- dod i'r ysgol yn rheolaidd ac ymdrechu i fod yn brydlon bob amser;
- ymddwyn yn gwrtais a dilyn rheolau'r ysgol;
- dangos parch a gofal tuag at pawb.

Ysgol

- Byddwn yn sicrhau y darperir rhaglen addysgu eang a chytbwys, sy'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn yn gweithio hyd eithaf ei allu.
- Gwneir pob ymdrech i baratoi amgylchedd ddiogel a gofalgarn i'ch plentyn.
- Darperir gwaith cartref rheolaidd yn unol â pholisi'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn:
 - darparu gwybodaeth rheolaidd;
 - darparu gwybodaeth am ddatblygiad eich plentyn;
 - cysylltu ar fyrder ynghylch unrhyw bryderon.
- Bydd yr ysgol yn rhoi sylw'n syth i unrhyw bryderon sydd gennych.

HOME / SCHOOL AGREEMENT

In order for your child to flourish and make the most of the opportunities offered to him/her the right conditions for learning must be created. These will include:

- *Love, understanding and support.*
- *Security and safety.*
- *Encouragement and appreciation.*
- *Leadership and discipline.*
- *Enthusiasm.*
- *Opportunities for teaching and learning and new experiences.*

This agreement defines the different range of responsibilities that have to be fulfilled by the home and school.

Parents

I/We will do my/our best to:

- *give every support to my/our child with his/her education;*
- *support my/our child with any activity set by the school including homework;*
- *attend parents evenings and meetings arranged to discuss my/our child's development;*
- *ensure that my/our child attends school and does so punctually;*
- *ensure that my/our child conforms with the school's behaviour policy;*
- *encourage my/our child to develop respect for himself/herself and others.*
- *contact the school immediately in any case of absence.*

Child

To help me do well in school, I will do my best to:

- *work hard in school;*
- *do my homework;*
- *attend school regularly and try to be punctual at all times;*
- *behave courteously and follow the school rules;*
- *show respect and care towards everybody.*

School

- *We will ensure that a broad and balanced teaching programme is provided, which meets the requirements of the National Curriculum.*
- *Every effort will be made to ensure that your child works to the extent of his/her ability.*
- *Every effort will be made to prepare a safe and caring environment for your child.*
- *Regular homework will be provided according to the school's policy.*
- *The school will:-*
 - *provide regular information,*
 - *provide regular information on the development of your child;*
 - *contact you immediately when there are concerns.*
- *The school will give immediate attention to any concerns you may have.*

GOFAL BUGEILIOL

Llwy'r gyfrifoldeb y rhieni yw diogelwch eu plentyn hyd nes agorir y drysau yn swyddogol am 8.50 a.m. bob bore. Mae gofal yr ysgol am y plentyn yn cychwyn am 8.45 a.m. pan wneir hyn.

Derbynnir y plant wrth y drws gan yr athrawon.

Cyflogir goruchwylwyr ar gyfer amser cinio, gydag aelod o staff dysgu yn bennaf gyfrifol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, y pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros yr holl blant am y cyfnod yma.

Arweinir y plant Babanod at eu rhiant/gwarchodwr arferol bob dydd am 3.00 p.m. oni bai fod trefniadau gwahanol wedi eu gwneud gyda'r ysgol. Yn achlysurol, cyfyd amgylchiadau arbennig lle gofynnir i'r ysgol warchod y plentyn am gyfnod estynedig.

Bydd aelod o staff y Babanod ar gael tan 3.45 p.m. bob dydd. Rhyddheir yr Adran Iau gan yr athro/athrawes ddisbarth am 3.30 p.m. a bydd yr aelod ar ddyletswydd tan 3.45 p.m. pan fydd pob plentyn wedi ymadael.

Mae'r staff yn sensitif i amgylchiadau a all godi petai rhiant yn hwyr yn cyrraedd i godi ei plentyn/plant.

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

PASTORAL CARE

The safety of the child is solely the responsibility of the parents until the school doors are officially opened at 8.50 a.m. every morning, at which time the school's responsibility for the child commences.

The children are received at the door by the teachers.

Supervisors are employed during lunch time whilst members of the teaching staff have the main responsibility from day to day. However, the headteacher is legally responsible for all the children during this time.

Infants are transferred to the care of their parent/guardian at 3.00 p.m. every day unless alternative arrangements have been made with the school. Occasionally, exceptional circumstances arise where the school is asked to mind the child for an extended period.

A member of the infants' staff is available until 3.45 p.m. every day. The Junior Department is dismissed at 3.30 p.m. by the class teacher who will remain on duty until 3.45 p.m. when every child will have left.

